# Royal Mint Museum

# Coins & the Sea

## Short Story Competition



## Sut i ysgrifennu stori

Ysgrifennwch stori am long sy'n cludo llwyth, a hithau'n cynnwys darnau aur, sy'n hwylio i mewn i storm ac yn mynd i drafferthion. Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyn i chi gychwyn ysgrifennu eich stori, gwnewch rywfaint o ymchwil i sicrhau bod eich stori'n ateb y brîff. Rydym wedi darparu rhywfaint o wybodaeth am y testun ar ein gwefan i'ch helpu i roi cychwyn arni

https://www.royalmintmuseum.org.uk/learning/

Beth mae angen i chi feddwl amdano cyn i chi ddechrau ysgrifennu?

## Pwrpas



Rydym wedi rhoi cychwyn eich stori i chi, ond ar ba drywydd ydych chi eisiau i'ch stori fynd nesaf? Sut ydych chi eisiau i'r darllenydd deimlo? Efallai eich bod eisiau iddo deimlo'n hapus neu'n llawn cyffro wrth ddarllen eich stori, neu efallai eich bod eisiau gwneud iddo deimlo'n drist. Gallech ysgrifennu stori arswyd sy'n codi ofn ar eich darllenydd.

Wedi i chi benderfynu beth fydd diben eich stori, meddyliwch sut y gallwch gyflawni hyn, a pha eiriau y gallwch eu defnyddio yn eich ysgrifennu i greu'r awyrgylch iawn.

## Lleoliad

Mae angen i'ch stori gychwyn gyda llong, ond a fydd y stori'n aros ar y llong? Os felly, pa fath o long ydy hi? Llong hwylio, neu stemar efallai? Neu ydy'r digwyddiadau'n digwydd yn rhywle arall?

Gewch chi ddewis lleoliad eich stori, ond rhaid iddo wneud synnwyr o safbwynt eich plot a'i bwrpas.

## Cymeriad

Pwy yw seren eich stori? Ai chi ydy o, neu rywun yr ydych wedi'i greu, neu ydy o'n rhywun go iawn? Gallai fod yn ffigwr hanesyddol. Efallai bod nifer o bobl yn eich stori. Does dim rhaid iddo fod yn unigolyn; gall fod yn anifail fel ci'r llong, neu barot môr-leidr. Neu gallai hyd yn oed fod yn stori am wrthrych fel darn arian!

## Strwythur

Pan fyddwch yn ysgrifennu stori, byddwch eisiau cael cychwyn, canol a diwedd i'r stori.

**Y CYCHWYN**
Dyma lle byddwch yn creu'r olygfa ac yn cyflwyno eich cymeriadau.

**Y CANOL**
Dyma lle mae popeth yn digwydd.

**Y DIWEDD**
Dyma lle byddwch eisiau dod â'r stori i ben.



# WORKSHEET

**DEFNYDDIWCH Y DAFLEN WAITH ISOD I'CH HELPU I GYNLLUNIO RHYWFAINT O SYNIADAU AR GYFER EICH STORI.**

## Ymhle ydych chi eisiau lleoli eich stori?

Defnyddiwch y bocs hwn i ysgrifennu rhywfaint o syniadau o ran lle yr hoffech leoli eich stori.

YDY O'N ADEILAD FEL GOLEUDY NEU ORSAF BAD ACHUB?

YDY'R CWBL WEDI'I LEOLI AR Y MÔR?

ALLAI O FOD MEWN AMGUEDDFA YN LLE MAE GWRTHRYCHAU O'R LLONG WEDI'U CADW?

## Bedd fydd yn digwydd yn eich stori?

Defnyddiwch y bocs hwn i ysgrifennu unrhyw syniadau sydd gennych o ran beth fydd yn digwydd yn eich stori.

YDY'R LLONG YN SUDDO NEU'N CAEL EI HACHUB?

A FYDD Y LLONGDDRYLLIAD YN CAEL EI AILDDARGANFOD GAN ARCHAEOLEGWYR FLYNYDDOEDD YN DDIWEDDARACH?

## Cymeriadau

Defnyddiwch y bocs hwn i ysgrifennu rhywfaint o syniadau ar gyfer y cymeriadau yn eich stori.

BETH YW EU HENWAU?

SUT OLWG SYDD ARNYN NHW?

YDYN NHW'N BOBL NEU'N ANIFEILIAID ……NEU BETH AM UN SY'N FÔR-FORWYN HYD YN OED?

## Sut i gofrestru

Am ragor o wybodaeth am y gystadleuaeth stori fer, ymwelwch â'n gwefan **https://www.royalmintmuseum.org.uk/learning/**
Neu e-bostiwch ni yn **storycompetition@royalmintmuseum.org.uk**